# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 25 Medi 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

# 229(v4)

## Enwebiadau ar gyfer cadeirydd pwyllgor (5 munud)

Bydd y Llywydd yn gwahodd enwebiadau ar gyfer cadeirydd y pwyllgor canlynol, yn unol â Rheol Sefydlog 17.2F:

Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

**Bethan Sayed** (Gorllewin De Cymru): Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan Thomas Cook yn cau? (TAQ341)

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Hawliau Pleidleisio i Garcharorion

(60 munud)

**NDM7139** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 'Hawliau Pleidleisio i Garcharorion', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mehefin 2019.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Gorffennaf 2019.

## 6 Dadl y Pwyllgor Cyllid ar flaenoriaethau gwariant y llywodraeth

(60 munud)

**NDM7140** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r sylwadau a wnaed gan gyfranogwyr yn nigwyddiad rhanddeiliaid y Pwyllgor Cyllid yn Aberystwyth ynghylch blaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllideb 2020-21 sydd ar y gweill.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid: cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21, Mehefin 2019

## 7 Dadl y Blaid Brexit – Y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd

(60 munud)

**NDM7141** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cefnogi aelodaeth Cymru o Deyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a'i pharhad amhenodol.

2. Yn nodi bod Cymru, fel y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd, wedi pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd.

3. Yn cefnogi datganoli pellach mewn meysydd penodol a fyddai o fudd i Gymru a lle mae rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn elwa o ddatganoli o'r fath, fel toll teithwyr rheilffyrdd ac awyr.

4. Yn nodi'r rhan a fu gan yr Undeb Ewropeaidd yn y gorffennol o dan erthyglau 154 i 156 o Gytuniad Rhufain mewn perthynas â rhwydweithiau traws-Ewropeaidd, gan gynnwys yr M4 a'r A55.

5. Yn galw ar Lywodraeth y DU i gefnogi gwelliannau i'r A55 a chyflenwi ffordd liniaru'r M4 drwy gronfa ffyniant a rennir y DU er budd Cymru a'r DU gyfan.

Cytuniad yn sefydlu Cymuned Economaidd Ewrop

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Rebecca Evans (Gwyr)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 1 "ond yn credu bod angen i'r ffordd y cynhelir y cysylltiadau rhynglywodraethol rhwng y cenhedloedd datganoledig a Llywodraeth y DU gael ei diwygio mewn modd radical".

**Gwelliant 2 - Rebecca Evans (Gwyr)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 2 "ond yn credu, yn sgil profiad y tair blynedd diwethaf, na ellir sicrhau dyfodol mwy disglair i Gymru heb i'r DU aros yn yr UE".

**Gwelliant 3 - Rebecca Evans (Gwyr)**

Ym mhwynt 3, yn lle "fel toll", rhoi "fel plismona a chyfiawnder a tholl".

**Gwelliant 4 - Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu pwynt 5 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth y DU:

a) i gryfhau ei hymrwymiad i fuddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru, er enghraifft drwy drydaneiddio'r prif linellau rheilffordd yn y De a'r Gogledd a buddsoddi mewn ynni llanw yng Nghymru, sy'n gyfrifoldeb iddi;

b) i ddarparu cyllid llawn yn lle’r cyllid Ewropeaidd y bydd Cymru’n ei golli os bydd y DU yn ymadael â’r UE, a hynny heb unrhyw ymyrraeth gan Lywodraeth y DU o ran y ffordd orau o’i ddefnyddio.

*[Os derbynnir gwelliant 4, caiff gwelliant 5 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 5 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ym mhwynt 5, ar ôl 'gwelliannau i'r', ychwanegu 'seilwaith yng Nghymru, gan gynnwys yr'.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7142** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Agwedd ysgol gyfan Cymru: cynorthwyo pob plentyn i ffynnu, dysgu a llwyddo mewn ysgolion.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 1 Hydref 2019